# Cynllun Blynyddol

2024-2025









Estyn

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon/cyhoeddiad hwn yn gywir adeg ei chyhoeddi/gyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r cynnwys at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon neges e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae holl gyhoeddiadau Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl ddogfen benodol / cyhoeddiad penodol.**

## Cynnwys


**Rhagair y Prif Arolygydd** **1**

**Ein gweledigaeth hirdymor** **3**

**Ein blaenoriaethau ar gyfer 2024-2025** **7**

**Cyflawni ein hamcanion strategol** **8**

Amcan strategol 1: Darparu atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru 9

Amcan strategol 2: Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru 15

Amcan strategol 3: Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru 17

Sut rydym yn cyflawni ein gwaith 19

**Atodiad 1: Trefniadau sector 2024-2025** **26**

**Atodiad 2: Gweithgarwch arolygu cynlluniedig 2024-2025** **30**

## Rhagair y Prif Arolygydd




Bydd 2024-2025 yn gyfnod prysur yn Estyn, gyda diwedd un cylch arolygu a lansio ein trefniadau newydd o fis Medi ymlaen. Mae gennym gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer cyflawni ein gwaith ac rydym yn eu hamlinellu yma yn ein trydydd Cynllun Blynyddol.

Mae gan Estyn rôl bwysig o ran sbarduno gwelliant ar draws darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Rydym yn parhau i gael adborth cadarnhaol ar ein gweithgareddau arolygu, ein hethos arolygu a'r hyfforddiant rydym yn ei gynnig i'n partneriaid yn y sector. Mae ein hymagwedd yn esblygu o hyd, gan gadw'r ffocws ar atebolrwydd ond darparu mwyfwy o ddiagnosteg ac arweiniad i sicrhau bod gwelliant yn ffocws allweddol. Rydym wedi symud oddi wrth raddau crynodol yn y rhan fwyaf o sectorau i ddeialog sy'n canolbwyntio ar wella rhwng arolygwyr a darparwyr, sy'n ffurfio rhan o'r tîm. Rydym yn gwerthfawrogi arolygwyr cymheiriaid, sydd â gwybodaeth uniongyrchol am y pwysau sydd ar y sector, yn fawr a byddwn yn parhau i ehangu'r model arolygwyr cymheiriaid wrth i ni gyflwyno ein trefniadau arolygu newydd.

Rydym wedi ymgysylltu'n eang ac yn gyson â rhanddeiliaid a phartneriaid ar ein trefniadau arolygu newydd, a hoffwn ddiolch i bawb a gymerodd ran yn y gweithgareddau hyn ac a roddodd adborth. Mae ein timau arolygu wedi gwrando ar safbwyntiau o bob sector, ochr yn ochr ag adborth o'r arolygiadau peilot sy'n mynd rhagddynt, ac rydym wedi diwygio ein harweiniad arolygu yn unol â hynny. Rydym yn gwerthfawrogi cydweithio â'n partneriaid yn fawr a byddwn yn parhau i geisio adborth wrth i ni roi ein trefniadau arolygu newydd ar waith.

Mae wyth mlynedd yn gyfnod hir iawn rhwng arolygiadau i ysgolion a darparwyr eraill, felly rydym yn cynllunio ar gyfer cylch chwe blynedd newydd mewn llawer o sectorau. Byddwn yn ymgysylltu'n fwy rheolaidd drwy arolygiad craidd symlach ac ymweliadau interim byrrach sydd â mwy o ffocws mewn llawer o leoliadau. Nod yr ymweliadau hyn fydd cefnogi gwelliant a chawsant eu croesawu mewn ymgynghoriadau diweddar. Byddwn hefyd yn defnyddio ein hadnoddau lle mae eu hangen fwyaf, er enghraifft gyda darparwyr y mae angen cymorth a monitro arnynt i wella.


Un o'r agweddau allweddol ar ein gwaith fydd meithrin ymddiriedaeth rhyngom ni a'r lleoliadau rydym yn eu harolygu. Bydd ein hethos yn cynorthwyo i helpu'r sectorau rydym yn eu gwasanaethu i wella a'n neges iddynt o hyd yw peidiwch â gorbaratoi ar gyfer arolygiad – addysgwch fel y byddech fel arfer. Rydym am roi gwybod i ddarparwyr eu bod yn barod yn barod i sicrhau eu bod yn cael yr effaith orau o'n hymweliadau.

Yn wir, un o'm prif ffocysau yw cyflawni mwy o effaith drwy ein gwaith. Mae cyflawni mwy o effaith yn mynnu ein bod yn gwrando'n weithredol ac yn sicrhau bod ein gwaith, gan gynnwys arolygiadau a chyhoeddiadau, yn haws ei ddefnyddio ac yn fwy hygyrch. Mae ein hadroddiadau arolygu cryno i rieni yn eu galluogi i gael gwybodaeth allweddol yn gyflym. Mae'r defnydd o'n Hadroddiad Blynyddol yn parhau i gynyddu a byddwn unwaith eto'n darparu mewnwelediadau cynnar sector-benodol o'n Hadroddiad Blynyddol ym mis Hydref, cyn lansio'r adroddiad llawn ym mis Ionawr 2025. Byddwn yn defnyddio mewnwelediadau proffesiynol o arolygiadau ac ymweliadau ymgysylltu i gynnig tystiolaeth o arfer a chynnydd mewn meysydd allweddol trwy ein hadroddiadau thematig.

Bydd cyflwyno Cwricwlwm i Gymru, rhoi'r Rhaglen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ar waith, adolygu gwasanaethau cymorth gwella ysgolion a ffurfio Medr, sef y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, yn effeithio ar lawer o ddarparwyr. Edrychwn ymlaen at gydweithio â'r gweithlu addysg a hyfforddiant, ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru, Medr a rhanddeiliaid eraill i gynorthwyo i roi'r meysydd allweddol hyn ar waith.

Er bod y sectorau addysg a hyfforddiant yng Nghymru yn wynebu llawer o faterion, a amlygwyd yn fy adroddiad blynyddol yn ddiweddar, mae llawer i'w ddathlu o hyd am ddarpariaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru, a'n rôl ni yw amlygu a rhannu'r arfer orau a welwn ledled Cymru. Rwyf wedi ymrwymo i wrando ar y sectorau rydym yn eu harolygu a, phob mis, byddaf yn parhau i ymweld â darparwyr ledled Cymru. Mae hyn yn cynnig cyfle i mi drafod y newidiadau rydym ni yn Estyn yn eu gwneud a sicrhau y gallwn gael yr effaith fwyaf cadarnhaol posibl. Edrychaf ymlaen at gyfarfod â llawer mwy o gydweithwyr yn y sector eleni a hoffwn ddiolch i'r holl addysgwyr ledled Cymru am eu hymdrechion parhaus a'u hymrwymiad cryf i gefnogi dysgwyr o bob oed i ddysgu a ffynnu.

Wrth i ni ddod â'n cylch arolygu cyfredol i ben a symud ymlaen i gyflawni'r Cynllun hwn, hoffwn ddiolch i'm staff am eu gwaith caled a'u proffesiynoldeb. Bu'n ymdrech fawr gan bawb yn Estyn yn arolygu, cynllunio, trefnu a chefnogi. Dim ond o'u herwydd nhw y mae'r hyn rydym wedi'i gyflawni fel sefydliad dros y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn bosibl.



**Owen Evans**

Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ein gweledigaeth hirdymor

Estyn yw Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae arolygu'n chwarae rôl ganolog mewn gwella ansawdd addysg a hyfforddiant i'n plant, pobl ifanc a dysgwyr gydol oes.

# Cenhadaeth a gweledigaeth

Ein **gweledigaeth** yw gwella ansawdd addysg a hyfforddiant, a deilliannau i'r holl ddysgwyr yng Nghymru

Ein **cenhadaeth** yw cynorthwyo darparwyr addysg a hyfforddiant i ddatblygu diwylliant o hunanwella a dysgu trwy ein cyngor, arolygu a meithrin gallu

# Hamcanion strategol

**Darparu atebolrwydd cyhoeddus** ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau darpariaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru

**Llywio datblygiad polisi** cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru a'i swyddogion

**Meithrin gallu** i wella cyflwyno system addysg a hyfforddiant yng Nghymru

# Gwerthoedd

- Rhoi dysgwyr wrth wraidd ein gwaith
- Gwrando, dysgu a chydweithio ag eraill
- Gweithredu'n ddidwyll, yn deg ac ag uniondeb
- Dangos arweinyddiaeth a gwaith tîm effeithiol
- Hybu iechyd, lles a chydraddoldeb ym mhopeth a wnawn
- Gwerthfawrogi a pharchu pobl a'u gwaith

Ein gweledigaeth yw gwella ansawdd addysg a hyfforddiant a deilliannau i bob dysgwr yng Nghymru. Mae dysgwyr wrth wraidd ein gwaith a'n cenhadaeth yw cynorthwyo darparwyr addysg a hyfforddiant i ddatblygu diwylliant o hunanwella a dysgu trwy ein cyngor, arolygu a meithrin gallu.

Mae ein hamcanion strategol yn diffinio'n fanylach yr hyn y gallwn ei gynnig yn unigryw i helpu hyrwyddo rhagoriaeth yn y system ac mae ein gwerthoedd yn adlewyrchu'r diwylliant sydd wrth wraidd ein gwaith. Mae adran ddiweddarach yn y cynllun hwn yn esbonio ein hamcanion strategol yn fanwl, ynghyd â sut rydym yn cyflawni ein gwaith.

## Arolygu 2024

Mae arolygu'n chwarae rôl ganolog mewn gwella ansawdd addysg a hyfforddiant i'n plant, pobl ifanc a dysgwyr gydol oes. Dyna pam y buom yn adolygu sut rydym yn arolygu i wneud yn siŵr fod ein gwaith yn cyd-fynd bob yn gam â newidiadau yng Nghymru ac yn bodloni anghenion y genhedlaeth nesaf o ddysgwyr.

O fis Medi 2024, bydd y rhan fwyaf o sectorau'n dechrau cylch newydd o arolygiadau, felly mae'n ein gwaith dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi ein helpu i fyfyrio ac adolygu ffocws ein gwaith a chanolbwyntio ar y meysydd hynny sy'n sbarduno'r gwelliant mwyaf. Rydym eisoes wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r ffordd rydym yn arolygu ac yn adrodd, fel cael gwared ar farnau crynodol, cynyddu'r ffocws ar ddeialog broffesiynol a chryfhau ein model enwebeion. Rydym yn awyddus i wneud rhagor o welliannau ac archwilio ffyrdd i sicrhau bod ein gwaith arolygu'n cefnogi ac yn ategu hunanwerthuso a gwella oddi mewn i'r system. Mae'r adolygiad hefyd yn cynnig ffyrdd i ni archwilio sut rydym yn ymgysylltu â'n darparwyr yn amlach.

Rydym wedi ymgysylltu'n eang â'n holl randdeiliaid a phartneriaid i wneud yn siŵr y caiff eu safbwyntiau eu hymgorffori yn yr hyn rydym yn ei arolygu a sut rydym yn arolygu o 2024 ymlaen.

Rydym yn gwerthfawrogi ac wedi gwrando'n ofalus ar farnau pawb sy'n gysylltiedig ag addysg – o uwch arweinwyr i athrawon, cynorthwywyr dosbarth, rhieni, dysgwyr a'r gymuned ehangach. Rydym hefyd wedi gwahodd mewnbwn ac adborth trwy ein prosesau ymgynghori amrywiol, gan gynnwys ymgynghoriadau cyhoeddus, grwpiau cyfeirio sectorau a'n holiaduron ôl-arolygiad. Rydym wedi siarad â staff ar draws ein sefydliad ac arweinwyr polisi ym mhob sector i wneud yn siŵr fod pawb wedi cael cyfle i gymryd rhan a chyfrannu at ein gwaith datblygu.

Trwy gydweithio â'r sectorau, rydym wedi treialu ein trefniadau arfaethedig. Bu adborth gan ddarparwyr a thimau arolygu, fel ei gilydd, yn gadarnhaol ac mae wedi llywio ein trefniadau arolygu newydd.

Mae ein themâu allweddol ar gyfer y dyfodol wedi'u hamlinellu isod. Mae **Atodiad 1** y cynllun hwn yn amlinellu ein trefniadau ar gyfer sectorau unigol yn fanwl.

### Themâu allweddol ar gyfer y dyfodol

Rhan o'n nod fu dod ag arolygu allanol a phrosesau gwerthuso mewnol darparwyr yn

nes at ei gilydd. Bydd aliniad gwell rhwng y prosesau hyn yn cefnogi gwelliant yn well. Rydym am i'n gwaith arolygu gefnogi ac ategu hunanarfarnu a gwella. Mae themâu allweddol yn cynnwys:

- Byddwn yn ymgysylltu ag ysgolion a darparwyr eraill yn fwy rheolaidd, gan gynnig adborth amserol a sicrwydd mwy cyfredol i ddysgwyr, rhieni a gofalwyr.
- Byddwn yn archwilio amrywiaeth ehangach o weithgareddau arolygu i gefnogi gwelliant yn well ar draws darparwyr a sectorau unigol. Bydd hyn yn cynnwys arolygiadau darparwyr unigol, arolygiadau thematig ac arolygiadau â thema ac ystod o ymweliadau eraill.
- Bydd y trefniadau newydd yn fwy cynnil ac yn canolbwyntio mwy ar y meysydd pwysicaf sy'n sbarduno gwelliant.
- Byddwn yn defnyddio ein hadnoddau lle mae eu hangen fwyaf, fel gydag ysgolion y mae angen cymorth a monitro arnynt i wella.
- Rydym yn gwerthfawrogi cyfraniad ymarferwyr yn fawr wrth i ni gyflwyno ein hymagwedd arolygu newydd.
- Byddwn yn parhau i feithrin a datblygu perthnasoedd â darparwyr a chyrff addysgol ar draws y sectorau rydym yn eu harolygu.
- Byddwn yn parhau i rannu arfer effeithiol ond yn gwella effaith ein gwaith trwy adroddiadau mwy hygyrch a defnyddiol, gan gynnwys adroddiadau arolygu ac adroddiadau thematig ac Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Fawrhydi.

Bydd y mewnwelediadau o'n gwaith ymgysylltu a pheilota yn parhau i lywio ein meddylfryd wrth i ni gadarnhau ein fframweithiau arolygu yn nhymor yr haf, cyn eu cyflwyno'n barod at fis Medi 2024.

Fel rhan o'r cynlluniau cyflwyno, byddwn yn cyfathrebu mwy â'n rhanddeiliaid a bydd rhaglen o ddysgu a datblygiad proffesiynol i'n holl arolygwyr.

## Y cyd-destun polisi ehangach

Bydd gan Medr, sef y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil gyllid, cynlluniau a phwerau rheoleiddio eang i'w alluogi i wella ansawdd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ar draws y sector Addysg Drydyddol ac Ymchwil (TER) yng Nghymru. Mae cyflwyno Cwricwlwm i Gymru, Cwricwlwm i Gymru: trosolwg, rhoi'r Rhaglen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ar waith, ac adolygu gwasanaethau cymorth gwella ysgolion Llywodraeth Cymru 2023 i gyd yn deillio o ddiwygiadau polisi sy'n canolbwyntio ar wella ac mae'r effeithiau'n bellgyrhaeddol.

Byddwn yn cydweithio â Medr, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i gynorthwyo i roi'r meysydd polisi allweddol hyn ar waith.

Mae lleddfu effeithiau tlodi ar ddysgu a chyrhaeddiad addysgol yn un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru: Strategaeth tlodi plant Cymru. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar waith darparwyr i leddfu effaith difreintedd. Cymraeg 2050:

strategaeth y Gymraeg yw strategaeth hirdymor Llywodraeth Cymru. Rydym yn hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg, diwylliant Cymru a'u cyd-destun hanesyddol yn unol â'r weledigaeth ar gyfer addysg yng Nghymru. Mae'r weledigaeth i gyflawni Cymru wrth-hiliol erbyn 2030, sef Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, yn un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r weledigaeth i sicrhau mai Cymru yw'r genedl fwyaf cyfeillgar yn Ewrop i bobl LHDTC+, sef Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru. Byddwn hefyd yn parhau i ganolbwyntio ar wneud newidiadau hirdymor i gefnogi'r gweledigaethau hyn. Byddwn hefyd yn gwneud ein rhan ni i ddarparu ansawdd bywyd gwell a pharhaus i bob un ohonom, fel yr amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Trwy waith arolygu a gwaith thematig, rydym yn gallu amlygu a rhannu enghreifftiau o arfer effeithiol a welwn ledled Cymru ym mhob un o'r meysydd hyn sydd â blaenoriaeth.



## Ein blaenoriaethau ar gyfer 2024-2025

Yn ogystal, trwy'r camau gweithredu sydd wedi'u hamlinellu dan ein hamcanion strategol yn yr adran nesaf, rydym wedi nodi meysydd gwaith lle gallwn wneud yr effaith fwyaf dros y flwyddyn sydd i ddod:

- Dechrau cyflwyno a gwella ein trefniadau arolygu craidd newydd ar gyfer 2024-2030 yn barhaus, ynghyd â'n rhaglen newydd o ymweliadau interim i ymgysylltu â darparwyr a'u cynorthwyo
- Parhau â'n strategaeth i rannu arfer effeithiol ac adnoddau i gefnogi gwelliant ar draws y system addysg a hyfforddiant, trwy ein rhaglen ymgysylltu â rhanddeiliaid
- Cyflawni ein strategaeth pobl, gan ganolbwyntio ar ddiwylliant, arweinyddiaeth a datblygiad sefydliadol cadarnhaol, recriwtio a chadw gweithlu amrywiol a lles i'n holl gydweithwyr
- Cyflawni ein strategaeth lleoli ar gyfer arolygwyr allanol, gyda ffocws penodol ar arolygwyr cymheiriaid
- Atgyfnerthu ein trefniadau gwaith â Medr, sef y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, wrth i'r corff ddod i rym ym mis Awst 2024
- Parhau ar ein taith trawsnewid digidol i wella ein seilwaith ac integreiddio ein systemau; i ddatblygu system rheoli adnoddau hyblyg ac ymatebol a gwneud y gorau o'n systemau rheoli gwybodaeth


## Cyflawni ein hamcanion strategol

Mae ein hamcanion strategol yn canolbwyntio ar wella deilliannau i ddysgwyr yng Nghymru trwy:

- ddarparu atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru
- llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru
- meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru

Mae'r ffordd rydym yn meddwl am ein gwaith – ein meddylfryd – yn ein helpu i:

- sicrhau'r gorau i bob dysgwr
- cynnig cyfle i arweinwyr, athrawon a staff cymorth gyfrannu'n broffesiynol ac yn adeiladol
- rhannu'r hyn rydym wedi'i weld ledled Cymru i gefnogi gwelliant



## Amcan strategol 1: Darparu atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru



Mae deddfwriaeth yn rhoi dyletswyddau a phwerau amrywiol i PAEF i arolygu darparwyr a gwasanaethau addysg yng Nghymru.

Mae arolygu'n chwarae rôl ganolog mewn gwella ansawdd addysg a hyfforddiant i'n plant, pobl ifanc a dysgwyr gydol oes. Mae'n cynnig sicrwydd i Weinidogion Llywodraeth Cymru, Medr, rhieni, gofalwyr, awdurdodau lleol a'n rhanddeiliaid eraill. Dyna pam y buom yn adolygu sut rydym yn arolygu i wneud yn siŵr fod ein gwaith yn cyd-fynd bob yn gam â newidiadau yng Nghymru ac yn bodloni anghenion y genhedlaeth newydd o ddysgwyr.

O fis Medi 2024, bydd y rhan fwyaf o sectorau'n dechrau cylch newydd o arolygiadau, felly rydym wedi myfyrio ar ffocws ein gwaith, a'i adolygu, er mwyn canolbwyntio ar y meysydd hynny sy'n sbarduno'r gwelliant mwyaf.

Mae manylion am ein prosesau arolygu diwygiedig ar gyfer 2024 a'r tu hwnt, ein hamserlen arolygu ac adroddiadau arolygu i'w gweld ar y dudalen arolygu ar ein gwefan.

Mae **Atodiad 2** yn amlinellu manylion ein gweithgarwch arolygu craidd cynlluniedig yn 2024-2025.

Bydd ein gweithgareddau, sy'n cael eu hamlinellu yn y cynllun blynyddol hwn, yn cael eu tanategu gan raglenni gwaith manwl sy'n cwmpasu diwedd y cylch arolygu cyfredol a'n trefniadau diwygiedig o fis Medi 2024 ymlaen.

Fel erioed, rydym yn gweithredu mewn cyd-destun sy'n newid yn gyson, felly bydd angen i ni gadw hyblygrwydd yn ein dull cyflawni a diweddaru'r cynllun hwn yn unol â hynny.

### Ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion

Mae 1,460 o ysgolion a gynhelir (cynradd, uwchradd, pob oed ac arbennig) a 22 o unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) yng Nghymru.

Fel rhan o'n trefniadau arolygu o fis Medi 2024, rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu ag ysgolion a gynhelir ac UCDau ddwywaith mewn cyfnod o chwe blynedd. Ar gyfer ysgolion a gynhelir ac UCDau, bydd hyn fel arfer yn golygu o leiaf un arolygiad craidd ac un ymweliad interim.

Byddwn:

- yn cwblhau ein cylch arolygu cyfredol erbyn mis Awst 2024
- yn defnyddio canfyddiadau o ymgynghoriadau ac arolygiadau peilot i gadarnhau ein trefniadau arolygu yn nhymor yr haf 2024
- yn dechrau ein cylch arolygu newydd ar gyfer 2024-2030 gan ddefnyddio ein fframwaith arolygu diwygiedig o fis Medi 2024 ymlaen
- yn dechrau ein rhaglen o ymweliadau interim ag ysgolion a gynhelir ac UCDau o fis Medi 2024 ymlaen

### Ysgolion annibynnol

Ar hyn o bryd, mae 84 o ysgolion annibynnol cofrestredig yng Nghymru. Mae'r nifer hon wedi'i rhannu'n weddol gyfartal rhwng ysgolion prif ffrwd a'r rhai sy'n darparu ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) neu anghenion addysgol arbennig (AAA). Er mwyn cofrestru ac aros ar y gofrestr, rhaid i'r ysgol gydymffurfio â'r rheoliadau a bodloni'r safonau ysgolion annibynnol. Mae'r safonau ysgolion annibynnol wedi cael eu diweddaru am y tro cyntaf mewn 20 mlynedd ac wedi'u rhoi ar waith o fis Chwefror 2024. Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024.

Byddwn:

- yn cwblhau ein cylch arolygu cyfredol erbyn mis Awst 2024, gan gynnwys unrhyw ymweliadau cofrestru sydd eu hangen yn nhymor yr haf
- yn defnyddio'r rheoliadau newydd, canfyddiadau ymgynghoriadau, treialon ac arolygiadau peilot i gadarnhau'r trefniadau arolygu newydd yn nhymor yr haf 2024
- yn dechrau ein cylch arolygu newydd ar gyfer 2024-2030 gan ddefnyddio ein fframwaith arolygu diwygiedig o fis Medi 2024 ymlaen, a bydd pob ysgol annibynnol yn cael:
    - un arolygiad craidd ym mhob cylch – gan gynnwys cydymffurfio â'r safonau newydd ar gyfer cofrestru
    - un arolygiad cydymffurfio yn unig ym mhob cylch
    - ymweliadau monitro pan na fydd ysgol yn bodloni'r safonau ac yn peri pryder

### Gwasanaethau addysg llywodraeth leol, y sector gwaith ieuenctid a darpariaeth trochi Cymraeg mewn awdurdodau lleol

Mae gwasanaethau addysg llywodraeth leol yn cynnwys y rhai sy'n cael eu darparu

neu eu comisiynu gan awdurdod lleol unigol, ynghyd â'r rhai sy'n cael eu darparu mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill. Caiff gwasanaethau gwella ysgolion eu darparu ar y cyd â chonsortia rhanbarthol neu drwy bartneriaethau ar ran awdurdodau lleol, yn bennaf, er bod y model ar gyfer sut mae hyn yn gweithio yn amrywio ledled Cymru. Mae 22 awdurdod lleol ledled Cymru. Cynhaliodd ein harolygwyr cyswllt awdurdodau lleol waith cyswllt rheolaidd ag awdurdodau lleol.

Mae ein hymagwedd arolygu wedi'i theilwra i'r sector gwaith ieuenctid. Rydym yn bwriadu datblygu model y gellir ei gymhwyso i waith ieuenctid sy'n cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol ond hefyd, ar wahân, i sefydliadau'r sector gwirfoddol sy'n darparu gwaith ieuenctid, lle bo hynny'n briodol.

Mae awdurdodau lleol yn cael cyllideb benodol trwy grant i ddatblygu darpariaeth trochi Cymraeg. Gallai gael ei darparu trwy sefydlu Canolfan Drochi Gymraeg neu drwy ariannu athrawon peripatetig i gefnogi hwyrddyfodiaid i'r iaith mewn ysgolion amrywiol. Byddwn yn dechrau arolygu'r ddarpariaeth hon eleni.

Byddwn:

- yn dechrau ein cylch arolygu newydd o wasanaethau addysg llywodraeth leol o fis Medi 2024 ymlaen, gydag Archwilio Cymru yn ymuno â ni yn ein harolygiadau; bydd awdurdodau lleol yn cael:
    - un arolygiad craidd ym mhob cylch
    - ymgysylltiad blynyddol gwell ag arolygwyr cyswllt awdurdodau lleol (ACALI)
    - gweithdai risg a sicrwydd blynyddol y byddwn ni'n cyfrannu atynt ynghyd ag Archwilio Cymru ac AGC
- yn peilota trefniadau arolygu ar gyfer darpariaeth trochi Cymraeg yn nhymor yr haf ac yna'n eu cyflwyno yn ystod tymor yr hydref a thymor y gwanwyn
- yn dechrau ein cylch newydd o arolygiadau o waith ieuenctid statudol awdurdodau lleol o fis Medi 2024 ymlaen, ynghyd ag arolygiadau o ddarparwyr gwaith ieuenctid gwirfoddol eraill

**Addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, colegau arbenigol annibynnol a phrentisiaethau dysgu yn y gwaith**

Mae 12 coleg addysg bellach yng Nghymru. Mae 13 o bartneriaethau rhanbarthol, ynghyd ag Addysg Oedolion Cymru sy'n gweithredu'n genedlaethol, gan gynnig darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned. Mae deg o ddarparwyr prentisiaethau dysgu yn y gwaith. Mae saith coleg arbenigol annibynnol yn darparu addysg a chymorth lles i ddysgwyr sydd ag ystod eang o anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Byddwn:

- yn cwblhau'r cylch arolygu cyfredol ar gyfer partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned a cholegau arbenigol annibynnol erbyn mis Awst 2024
- yn parhau i arolygu darparwyr prentisiaethau dysgu yn y gwaith (gan gwblhau'r cylch arolygu erbyn mis Awst 2025)
- yn dechrau ein cylch arolygu newydd o fis Medi 2024 ymlaen ar gyfer colegau addysg bellach, partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned a cholegau arbenigol annibynnol

## Cymraeg i Oedolion

Mae un Ganolfan Genedlaethol ac un ar ddeg o ddarparwyr yn y sector Cymraeg i Oedolion, sy'n cynnig ystod o gyrsiau Cymraeg o lefel mynediad i hyfedredd, wyneb-yn-wyneb ac ar-lein.

Byddwn:

- yn cynnal arolygiad o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gwblhau'r cylch cyfredol
- yn cyflwyno trefniadau newydd o fis Medi 2024, gan gynnwys:
    - arolygiad llawn o sampl o ddarparwyr Dysgu Cymraeg
    - arolygiad blynyddol â thema yn samplu darpariaeth ar draws nifer o ddarparwyr Dysgu Cymraeg

## Meithrinfeydd nas cynhelir

Mae 540 o feithrinfeydd nas cynhelir yng Nghymru. Caiff arolygiadau o feithrinfeydd nas cynhelir eu cynnal ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Cymru.

Byddwn:

- yn adolygu ein trefniadau arolygu ar y cyd cyfredol ochr yn ochr ag AGC i nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda â'n prosesau a sut y gallwn eu gwella
- yn parhau â'n cylch arolygu cyfredol
- yn cydweithio ag Arolygiaeth Gofal Cymru i gadarnhau'r trefniadau arolygu newydd ar gyfer mis Medi 2025

## Addysg Gychwynnol Athrawon

Ein system Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) newydd yw diweddglo sawl diwygiad cydgysylltiedig a chyd-ddibynnol dros y pum mlynedd diwethaf, gan gynnwys ein cwricwlwm newydd, Cymraeg 2050, y system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) newydd, y diwygiadau i'r safonau proffesiynol a'r newidiadau rheoleiddiol ar gyfer achredu AGA.

Ar hyn o bryd, mae saith darparwr AGA. Mae pob un ohonynt yn bartneriaethau sy'n cynnwys un sefydliad addysg uwch (SAU) a'i ysgolion arweiniol ar gyfer AGA. Mae gan Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA) gyfrifoldeb statudol am achredu pob rhaglen AGA yn unol â meini prawf a nodir gan Lywodraeth Cymru. Mae gan Estyn rôl hollbwysig o ran cynnal a gwella ansawdd AGA. Trwy ein gweithgarwch arolygu, byddwn yn rhoi gwybod i CGA os bernir nad yw darpariaeth yn bodloni'r gofynion achredu.

Byddwn:

- yn parhau â'n cylch arolygu cyfredol
- yn cydweithio'n agos â Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA) ac yn addasu ein trefniadau ar ôl cael adborth a chadarnhau'r trefniadau arolygu newydd ar gyfer mis Medi 2025

## Dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae pum carchar ac un sefydliad troseddwyr ifanc yng Nghymru. Rydym yn ymuno ag Arolygiaeth Carchardai EF ar ei harolygiadau o garchardai, gan ganolbwyntio ar agweddau ar addysg, hyfforddiant a medrau gweithgarwch pwrpasol. Mae 17 o wasanaethau troseddwyr ifanc yng Nghymru ac, ar hyn o bryd, rydym yn archwilio ffyrdd i arolygu'r gofal, cymorth ac arweiniad i droseddwyr ifanc ers i ni roi'r gorau i gynnal arolygiadau ar y cyd ag Arolygiaeth Prawf EF. Mae un cartref diogel i blant yng Nghymru, lle'r ydym yn ymuno ag Arolygiaeth Gofal Cymru ar ei harolygiad i ganolbwyntio ar agweddau ar addysg a hyfforddiant.

Byddwn:

- yn parhau â'n harolygiadau o gartrefi diogel i blant ag Arolygiaeth Gofal Cymru
- yn adolygu ein trefniadau arolygu ar y cyd cyfredol â'r arolygiaethau Carchardai, Prawf ac AGC i nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda â'n prosesau a sut y gallwn eu gwella
- yn cydweithio ag Arolygiaeth Carchardai EF i gadarnhau'r trefniadau arolygu newydd ar gyfer mis Medi 2024

## Gweithgarwch arolygu dilynol

Yn ystod arolygiad, rydym yn ystyried a oes angen unrhyw gymorth pellach ar y darparwr. Rydym yn galw hyn yn 'weithgarwch dilynol'. Mae'r gwahanol fathau o 'weithgarwch dilynol' i'w gweld ar y dudalen gweithgarwch dilynol ar ein gwefan.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio adolygu gan Estyn tan fis Medi 2024, a byddwn yn monitro cynnydd darparwyr sy'n cael eu rhoi yn y categori adolygu gan Estyn hyd at 2026. Fodd bynnag, gan y bydd ein trefniadau arolygu newydd o fis Medi 2024 ymlaen yn cynnwys ymweliadau amlach â phob darparwr, rydym yn bwriadu dod ag adolygu gan Estyn i ben fel categori gweithgarwch dilynol ar ôl y dyddiad hwn. Bydd gweithgarwch dilynol statudol (Gwelliant Sylweddol a Mesurau Arbennig) yn parhau, yn unol â'r arweiniad statudol cyfredol.

Byddwn:

- yn parhau i fonitro'n ffurfiol bob darparwr y mae angen gweithgarwch dilynol arno o ganlyniad i arolygiad craidd
- yn parhau i gydweithio â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i gefnogi'r rhaglen amlasiantaeth ar gyfer ysgolion uwchradd sy'n peri pryder, gan gynnwys pob ysgol uwchradd ac ysgol arbennig sydd yn y categori mesurau arbennig
- yn parhau i ddarparu cymorth arolygydd cyswllt i awdurdodau lleol sy'n peri pryder, gan gynnwys cynnal cynadleddau gwella ac ymweliadau monitro yn ôl y gofyn

## Cydweithio pellach â chyrff arolygu a chyrff eraill

Byddwn:

- yn cynnal adolygiad, yn dilyn ein hadroddiad cenedlaethol yn 2023, ar agweddau ar raglen cyflogadwyedd ieuenctid Twf Swyddi Cymru+

- yn parhau â'n gwaith mewn partneriaeth ag Arolygiaeth Carchardai EF ac Arolygiaeth Prawf EF i arolygu dysgu yn y sector cyfiawnder yng Nghymru
- ar y cyd â phartneriaid arolygu eraill, yn cyfrannu at astudiaeth dan arweiniad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ar iechyd meddwl a phobl ifanc
- yn cydweithio ag Ofsted i gynorthwyo, mewn rôl sicrhau ansawdd, ar arolygiadau o brentisiaethau, yn ôl y gofyn
- yn parhau i weithio ochr yn ochr ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS) mewn arolygiadau ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant (JICPA)
- yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru a Medr, sef y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, i ystyried trefniadau arolygu'r dyfodol ar gyfer darpariaeth addysg bellach a hyfforddiant ac addysg gychwynnol athrawon
- yn parhau i weithio ag arolygiaethau addysg a hyfforddiant o wledydd cyfagos, ar lefel strategol a gweithredol, gan rannu gwybodaeth a hysbysrwydd yn rheolaidd
- yn parhau i ymgysylltu'n weithredol â gweithgareddau Cynhadledd Ryngwladol Sefydlog yr Arolygiaethau i rannu ag arolygiaethau eraill a dysgu oddi wrthynt

**Diogelu**

Byddwn yn wyliadwrus yn ein gwaith i gynnal diogelwch a lles pobl ifanc ac oedolion bregus ac yn parhau i werthuso pa mor dda y mae darparwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau mewn modd sy'n diogelu plant a, lle y bo'n briodol, oedolion bregus.



## Amcan strategol 2: Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru



Rydym yn darparu safbwynt cenedlaethol ar ddarpariaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru trwy'r dystiolaeth eang a gawn o weithgareddau arolygu ac adolygiadau thematig. Rydym yn chwarae rôl mewn pwyllgorau strategol a gweithgorau, yn ymgysylltu â Gweinidogion Llywodraeth Cymru, swyddogion a rhanddeiliaid eraill, yn rhoi cyngor yn seiliedig ar dystiolaeth ar ddatblygu polisi a rheoleiddio.

Mae gennym ddyletswydd statudol hefyd i ddarparu adroddiad blynyddol ar safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Byddwn yn parhau i gyhoeddi crynodebau sector yn gynnar ym mis Hydref 2024 a chaiff yr adroddiad llawn ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2025. Mae'n debyg y bydd y themâu allweddol i'w cynnwys eleni fel a ganlyn:

- gwrth-hiliaeth
- Cwricwlwm i Gymru
- presenoldeb
- hunanwerthuso a chynllunio gwelliant
- recriwtio a chadw
- y Gymraeg

Mae'r eitemau sydd wedi'u cynnwys yn yr adolygiadau thematig ar gyfer 2024-2025 yn adlewyrchu cylch gwaith strategol sy'n canolbwyntio ar y diwygiadau cyfredol ar gyfer gweithredu Cwricwlwm i Gymru, y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg a diwygio Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (AHO), ac yn cynnwys eitem yn canolbwyntio ar ddatblygu'r Gymraeg a ffocws ar gefnogi dysgwyr bregus.

Bydd Medr, sef y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, yn weithredol o fis Awst 2024. Bydd Medr yn ariannu gwaith thematig Estyn yn y sectorau y bydd yn cymryd cyfrifoldeb drostynt. Ar gyfer 2024-2025, mae Llywodraeth Cymru wedi pennu cyllideb a chylch gwaith Estyn a Medr.

Byddwn yn dechrau gweithio ar chwe adroddiad thematig manwl sydd wedi'u cynnwys yn ein cylch gwaith ar gyfer 2024-2025, sef:

- Addysgu yng nghyd-destun Cwricwlwm i Gymru
- Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh) Mathemateg a Rhifedd
- Hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol mewn ysgolion uwchradd
- Hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol mewn colegau addysg bellach (AB) (A bennwyd gan Lywodraeth Cymru ac a fydd yn cael ei etifeddu gan Medr)
- Adolygiad o gynlluniau hyfforddiant y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Medrau sylfaenol mewn dysgu oedolion yn y gymuned (A bennwyd gan Lywodraeth Cymru ac a fydd yn cael ei etifeddu gan Medr)

Byddwn yn parhau i roi cyngor parhaus yn seiliedig ar dystiolaeth o arolygiadau, gwaith ymgysylltu a gweithgarwch arall trwy gyfarfodydd â swyddogion Llywodraeth Cymru, cyfraniadau at weithgorau cenedlaethol, y Sgyrsiau Rhwydwaith Cenedlaethol, cyngor ysgrifenedig, arweiniad cyhoeddedig ac adroddiadau.

Byddwn hefyd yn darparu ymatebion ymgynghori ar faterion yn ymwneud ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru ac yn cyhoeddi ein hymatebion.

Yn ogystal, ar sail dystiolaeth sy'n cael ei chasglu o arolygiadau, gwaith ymgysylltu a gweithgarwch arall, bydd Estyn hefyd yn rhoi diweddariadau a chyngor rheolaidd ar:

- Gwricwlwm i Gymru
- gweithredu'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg
- presenoldeb ysgol
- Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg
- gwrth-hiliaeth
- hunanwerthuso a chynllunio gwelliant

Byddwn yn rhoi cyngor i weithgorau amrywiol. Bydd hyn yn cynnwys cymorth ar gyfer yr agweddau hynny ar addysg a hyfforddiant ôl-orfodol sydd o fewn cylch gwaith y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Byddwn hefyd yn rhoi cymorth cyffredinol i Lywodraeth Cymru o ran addysg a hyfforddiant yng Nghymru ac, yn benodol, ar gynigion i gau ac ad-drefnu ysgolion.

Bydd Estyn yn parhau i gydweithio â phartneriaid i sicrhau bod ei fonitro a chymorth i ysgolion ac UCDau sy'n peri pryder yn cydweddu â'r cymorth ar gyfer gwella ysgolion a ddarperir gan sefydliadau eraill.

Mae'r llythyr cylch gwaith llawn a anfonodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg at PAEF i'w weld yma (Cylch gwaith blynyddol Estyn: 2024 i 2025 | LLYW.CYMRU).

## Amcan strategol 3 – Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru



Mae ein gweithgarwch arolygu a thematig yn ein rhoi mewn sefyllfa gref i werthuso ansawdd y sector addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae ein sgyrsiau proffesiynol a'n hargymhellion yn helpu i ysbrydoli a chefnogi gwelliant yn y system.

Mae ein grwpiau fforymau rhanddeiliaid a grwpiau cyfeirio – sy'n benodol i'r sector a grwpiau wedi'u seilio ar brosiectau – yn llywio'r hyn a wnawn ac yn caniatáu i ni ymgysylltu'n fanylach ar faterion penodol. Mae gwrando ar eu safbwyntiau i ffwrdd o'r broses arolygu yn rhoi darlun cliriach i ni. Byddwn yn gweithio i sicrhau mwy o amrywiaeth ar draws y cynrychiolwyr yn ein grwpiau rhanddeiliaid.

Mae arolygwyr cymheiriaid yn amhrisiadwy i ni – maent yn helpu i greu dealltwriaeth a disgwyliadau ar y cyd ar draws addysg a hyfforddiant. Gyda thua 1,000 o arolygwyr cymheiriaid ar draws pob sector, maent yn cael cyfle i weld arfer sy'n wahanol i'w harfer eu hunain – gan hogi eu medrau dadansoddi a'u dealltwriaeth i'w helpu i feithrin gallu ar draws eu sectorau i gefnogi system sy'n hunanwella.

Byddwn:

- yn datblygu a lansio gwefan newydd i ddarparu profiad gwell i ddefnyddwyr
- yn darparu ein rhaglen ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys gweminarau a fforymau eraill, i roi gwybodaeth i weithwyr proffesiynol, dysgwyr, rhieni a gofalwyr am ein gwaith, gyda ffocws penodol ar gynyddu amrywiaeth o ran lleisiau rhanddeiliaid i gyfoethogi ein gwaith
- yn cydweithio â Medr a fforymau a grwpiau llywio Llywodraeth Cymru ar ystod o faterion sy'n ymwneud â pholisi addysg a hyfforddiant, gan gynnwys llwyth gwaith
- yn ceisio adborth gan ein grwpiau cyfeirio amrywiol ar draws ein holl sectorau a chael 'gwiriad o synnwyr a realiti' wrth i ni roi ein fframwaith arolygu newydd ar waith o fis Medi 2024 ymlaen
- yn paratoi'r gweithlu allanol ar gyfer y fframwaith arolygu newydd, gan gynnal hyfforddiant diweddaru yn nhymor yr haf 2024 ar gyfer Arolygwyr Cofrestredig, arolygwyr ychwanegol, arolygwyr cymheiriaid, arolygwyr partneriaid gwella

awdurdodau lleol ac arolygwyr lleyg
- yn parhau â'n rhaglen hyfforddiant, gan ddod ag arolygwyr newydd i'n gweithlu allanol, gyda phwyslais penodol ar barhau i ymestyn cyfranogiad ein hymarferwyr cyfredol fel arolygwyr cymheiriaid mewn gweithgarwch arolygu
- yn gwerthuso a chryfhau ein rhaglen datblygu arweinyddiaeth ar gyfer ymarferwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol a chynllunio ar gyfer carfan 2 fel rhan o'n strategaeth i feithrin gallu a chynyddu amrywiaeth yn y gweithlu addysg, gan gynnwys ein gweithlu arolygwyr cymheiriaid
- yn llunio adroddiadau a deunyddiau ategol addysgol a difyr yn benodol ar gyfer grwpiau unigol o randdeiliaid, fel ymarferwyr, dysgwyr, rhieni a gofalwyr
- yn parhau i nodi arfer effeithiol o'n gwaith arolygu a thematig ac ystyried y ffyrdd gorau i'w rhannu ar-lein ac mewn cynadleddau
- yn parhau â gwaith ein harolygwyr cyswllt awdurdodau lleol a gwella ysgolion ledled Cymru
- yn parhau â gwaith ein harolygwyr cyswllt ôl-16 i ymgysylltu'n rheolaidd â darparwyr addysg bellach, dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned
- yn parhau i ymgysylltu'n rheolaidd â darparwyr dysgu yn y sector cyfiawnder a cholegau arbenigol annibynnol



## Sut rydym yn cyflawni ein gwaith



Ein nod yw cefnogi a datblygu ein gweithlu i fod yn rym ar gyfer gwella. Mae ein gweithlu'n cynnwys tîm rheoli, staff canolog ac arolygwyr. Rydym yn hyfforddi arolygwyr ychwanegol, arolygwyr cymheiriaid (sy'n gweithio mewn addysg a hyfforddiant ar hyn o bryd), arolygwyr partneriaid gwella awdurdodau lleol, arolygwyr lleyg ac enwebeion (sy'n gweithredu fel cynrychiolydd y darparwr) i weithio'n rhan o dimau arolygu.

Rydym hefyd yn cefnogi trefniadau secondiad i mewn ac allan o'n sefydliad, lle bo hynny'n bosibl. Mae ein Strwythur sefydliadol ar gael ar ein gwefan.

Mae ein fframwaith llywodraethu o fyrddau, pwyllgorau a grwpiau, gan gynnwys ein fframwaith sicrwydd, yn ein helpu i gyflawni ein hamcanion strategol fel sefydliad effeithlon sy'n cael ei reoli'n dda. Oddi mewn i'r fframwaith, bydd cyfarwyddwyr anweithredol, yn gwasanaethu fel aelodau ac yn cadeirio ein Bwrdd Strategaeth a'n Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, yn parhau i herio a chefnogi'r uwch dîm rheoli.

Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn nysgu a datblygiad proffesiynol ein gweithlu cyfan ac yn buddsoddi i sicrhau bod ein systemau'n gweithio'n rhwyddach iddynt. Bydd cyrchu a dadansoddi data yn fwy effeithlon yn cynyddu'r effaith y gallwn ei chael. Byddwn yn parhau i archwilio ffyrdd o gynyddu amrywiaeth ein gweithlu. Rydym wedi ymrwymo i chwarae ein rhan yn uchelgais sero net Llywodraeth Cymru, gan ymgymryd â'n gwaith mewn modd sy'n amgylcheddol gyfrifol ac ymwreiddio cynaliadwyedd yng nghraidd ein gwaith. Mae ein polisi iaith Gymraeg yn ein helpu i sicrhau ein bod yn ymdrin â phopeth yn ddwyieithog a bod ein dulliau cyfathrebu'n bodloni dewis iaith rhanddeiliaid.

Byddwn:

- yn rhoi ein strategaeth pobl ar waith i sicrhau amgylchedd ysgogol, gwerthfawr a chynhwysol sy'n hybu iechyd ar gyfer ein pobl i adeiladu gweithlu amrywiol
- yn adolygu ein prosesau lleoli arolygwyr cymheiriaid gyda'r nod o oresgyn rhwystrau rhag lleoli'n amserol a gwella capasiti

- yn parhau i fuddsoddi yn nysgu a datblygiad ein gweithlu i gefnogi ein gweithlu a'r sefydliad i ddatblygu
- yn ymgysylltu â'n staff i archwilio'r materion a gweithredu ar ganlyniadau Arolwg Pobl 2023
- yn parhau ar ein taith trawsnewid digidol:
  - yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'n systemau TG i wella ein seilwaith ac integreiddio ein systemau
  - yn datblygu system rheoli adnoddau ymatebol i sicrhau y caiff adnoddau priodol eu defnyddio'n effeithlon
  - yn gwella ein systemau rheoli gwybodaeth ac ehangu ein defnydd o blatfformau deallusrwydd busnes i ddarparu data a gwybodaeth gywir a dibynadwy ar draws y sefydliad
- yn parhau i gyflawni ein cyfrifoldebau statudol a gweithgareddau corfforaethol allweddol, gan gynnwys cydraddoldeb ac amrywiaeth, safonau'r Gymraeg a chynaliadwyedd

Mae'r adran amdanom ni ar ein gwefan yn rhoi esboniad pellach o'r gwaith rydym yn ei wneud a sut rydym yn gwneud y gwaith hwnnw.



## Ein cyllideb

Er bod chwyddiant fel y'i mesurwyd gan CPI wedi gostwng yn raddol ar hyd blwyddyn ariannol 2023-2024, nid oeddem yn ddiogel rhag y pwysau ariannol ychwanegol a ddaeth yn sgil costau cynyddol. Rydym yn ymwybodol iawn o'r pwysau ariannol y mae costau uwch yn eu rhoi ar ddarparu pob gwasanaeth cyhoeddus a'r heriau cyllidebol parhaus y mae cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru yn eu hwynebu, ac yn cydnabod y penderfyniadau anodd maent yn eu hwynebu. Fodd bynnag, rydym yn falch bod y gwaith hanfodol a wnawn i wella deilliannau i ddysgwyr ledled Cymru yn cael ei gydnabod a'i gefnogi o hyd.

Nid yw ein setliad ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-2025 sydd ar ddod wedi newid o'r ffigur mynegol a roddwyd yng Nghynllun Blynyddol y llynedd, sef £15.893m.

| | £000oedd | £000oedd |
|---|---|---|
| Gwariant | | |
| Costau staff (Mewnol ac Allanol) | 14,224 | |
| Costau nad ydynt yn gostau staff | 2,479 | |
| Cyfanswm gwariant | | 16,703 |
| Cyllid | | |
| Cyllid craidd | 11,023 | |
| Cyllid ychwanegol gan Adran y Gymraeg ac Addysg | 4,870 | |
| | | 15,893 |
| Grantiau | | 308 |
| Cyfanswm cyllid | | 16,201 |
| Gwarged / (Diffyg) | | (502) |

Yn ogystal â'r uchod, mae gennym gyllideb anariannol (dibrisiant) o £200,000 a chyllideb cyfalaf o £250,000.

Mae ein Grŵp Rheoli Gweithrediadau a'n Grŵp Rheoli Strategol yn craffu ar ein perfformiad ariannol ac yn ei drafod yn fisol wrth i ni chwilio'n barhaus am ffyrdd i wella ein heffeithlonrwydd a'n heffeithiolrwydd. Caiff goruchwyliaeth ychwanegol ei darparu drwy gydol y flwyddyn gan y Bwrdd Strategaeth a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC).

## Newidiadau o ran cyllid

O 1 Awst 2024 ymlaen, daw Medr, sef y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil , i rym a byddwn yn cydgrynhoi ein trefniadau gweithio â nhw. Bydd cyllid uniongyrchol gan Medr ar gyfer ein gwaith ôl-16 mewn AB, prentisiaethau, dysgu oedolion yn y gymuned a dosbarthiadau chwech yn dechrau o 1 Ebrill 2025.

## Monitro ein perfformiad

Caiff ein cynllun blynyddol ei lunio bob blwyddyn ac, wedi hynny, rydym yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol a chyfrifon, sy'n esbonio cynnydd o ran cyflawni ein cynllun blynyddol ac yn darparu set lawn o'n cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Yn 2024-2025, byddwn yn parhau i ddefnyddio cyfuniad o ddulliau meintiol ac ansoddol i fesur, adrodd a myfyrio ar ein perfformiad. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau rheolaidd i'n Grŵp Gweithredol, ein Grŵp Arweinyddiaeth Arolygu, ein Grŵp Rheoli Strategol a'n Bwrdd Strategol ar gynnydd a wnaed tuag at gyflawni ein hamcanion strategol a'n dangosyddion perfformiad allweddol. Bydd hefyd yn cynnwys adroddiadau archwilio mewnol i'n Grŵp Gweithredol, ein Grŵp Rheoli Strategol a'n Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Rydym wedi nodi set o ddangosyddion perfformiad allweddol lefel uchel a fydd yn ein helpu i fesur cynnydd tuag at gyflawni ein hamcanion strategol. Caiff y rhain eu hategu gan set ehangach o ddangosyddion rheoli gweithredol yr adroddir arnynt yn fewnol, yr adroddir ar lawer ohonynt yn allanol hefyd yn ein hadroddiad blynyddol a chyfrifon.



**Dangosyddion perfformiad allweddol:**

| Rhif y DP | Amcan strategol (AS) | Mesur perfformiad | Dangosyddion perfformiad allweddol | Targed 2023-2024 |
|---|---|---|---|---|
| 1 | AS1 | Sicrhau atebolrwydd cyhoeddus i ddefnyddwyr ein gwasanaethau (a chynyddu gallu o ran darparu addysg a hyfforddiant yng Nghymru) | a) Canran yr arolygiadau a gwblhawyd a oedd yn bodloni'r gweithgarwch arolygu cynlluniedig a amlinellwyd yn ein cynllun blynyddol | 97% |
| | | | b) Lleoli arolygwyr cymheiriaid ac arolygwyr lleyg mewn arolygiadau yn unol â safonau Estyn | O leiaf 1 arolygydd lleyg ym mhob arolygiad ac arolygydd lleyg ym mhob arolygiad ysgol |
| 2 | AS1 / AS3 | Sicrhau bod profiad darparwyr o arolygu yn broses gadarnhaol sy'n hyrwyddo gwelliant | Canran y darparwyr sy'n llenwi holiadur ôl-arolygiad sy'n nodi eu bodlonrwydd ar ôl arolygiad:<br>a. Bod arolygwyr wedi rhoi adborth defnyddiol yn ystod yr arolygiad trwy nodi cryfderau perthnasol a meysydd i'w gwella (HOA1 – C15) | 97% |
| | | | b. O ran dibynadwyedd ac annibyniaeth ein barnau (HOA2 – C22) | 97% |
| | | | c. Bod yr arolygiad wedi'u helpu i gynllunio ar gyfer gwella (HOA2 – C20) | 97% |
| 3 | AS1 / AS3 | Datblygu ein trefniadau gweithio â'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, sydd â'r nod o hyrwyddo mwy o gydlyniant a chydweithio ar draws darpariaeth ôl-16 | Cydgrynhoi ein trefniadau gwaith â'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil pan ddaw'r corff yn weithredol ym mis Awst 2024 | 31 Mawrth 2025 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4 | AS2 / AS3 | Sicrhau bod ein gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cynyddu effaith gadarnhaol gwaith Estyn ac yn sbarduno gwelliant ar draws y sector addysg a hyfforddiant yng Nghymru | a) Cyfran y rhanddeiliaid sydd o'r farn bod ein digwyddiadau i randdeiliaid yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn<br><br>b) Cyfran y rhanddeiliaid sy'n dweud eu bod wedi cael mewnwelediad defnyddiol o'n gwaith na fyddent wedi'i gael rywle arall<br><br>c) Cyfran y rhanddeiliaid sydd o'r farn bod ein gwaith wedi arwain at welliannau yn y modd y caiff gwasanaethau addysg a hyfforddiant a datblygiad polisi eu darparu yng Nghymru | Gweithredu ymagwedd newydd at ymgysylltu â rhanddeiliaid i gasglu adborth annibynnol gan ein cynulleidfa bob dwy flynedd<br><br>(arolwg tymor y gwanwyn 25) |
| | | | ch) Nifer gyfunol yr edrychiadau a'r lawrlwythiadau ar gyfer ein cyhoeddiadau allweddol (Adroddiad Blynyddol ac adroddiadau thematig) a'r deunyddiau cysylltiedig yn ystod cyfnod yr adroddiad<br><br>d) Canran y bobl sy'n clicio drwodd i ddarllen ein cyhoeddiadau allweddol o ffynonellau amrywiol:<br><br>dd) Cyfradd clicio drwodd ein cylchlythyr bob hanner tymor i randdeiliaid allanol (caiff hwn ei ddosbarthu i fwy na 2,500 o gysylltiadau, gan amlygu penawdau a chyhoeddiadau testunol) | (Targed blynyddol o 50,000)<br><br>Peiriannau chwilio: 26%<br>Traffig uniongyrchol: 50%<br>Dolenni wedi'u cyfeirio o wefannau eraill: 5%<br><br>E-dafliadau: 5.5%<br><br>Cyfradd clicio drwodd: 7% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5 | Sut rydym yn cyflawni | Creu a chynnal gweithlu ymgysylltiedig a medrus | a) Sgôr mynegai ymgysylltiad Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil | Yn y chwartel uchaf |
| | | | b) Rhoi ein strategaeth dysgu a datblygu ar waith ar gyfer pob un o’n cydweithwyr | 31 Mawrth 2025 |

# Atodiad 1: Trefniadau sector 2024-2025

## Ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion

Byddwn yn dychwelyd i gylch chwe blynedd. Fel rhan o'n 'gwaith ymgysylltu arall' ag ysgolion a gynhelir ac UCDau, rydym yn cyflwyno 'Ymweliad Interim'. Ar gyfer y sectorau hyn, bydd hyn yn golygu o leiaf un arolygiad craidd ac un ymweliad interim yn ystod y cylch.

**Yr arolygiad craidd**

- Parhau i gynnwys ymarferwyr fel arolygwyr cymheiriaid a chynyddu rôl yr enwebai ymhellach.
- Symud i dri maes arolygu (o bump):
    - MA1: Addysgu a dysgu
    - MA2: Lles, gofal, cymorth ac arweiniad
    - MA3: Arwain a gwella

Mae cydgrynhoi ein meysydd arolygu fel hyn yn cael gwared ar ddyblygu a bydd yn ein helpu i siarad yn haws am achos ac effaith. Er enghraifft, ym maes arolygu 1, gallwn adrodd ar ba mor dda y caiff y cwricwlwm ei addysgu a'r effaith a gaiff yr addysgu ar safonau disgyblion heb orfod gwneud sylwadau ar wahân, fel rydym yn ei wneud ar hyn o bryd dan Dysgu (MA1) ac Addysgu a phrofiadau dysgu (MA3).

Yn y pen draw, bydd yn arwain at adroddiad sy'n helpu darparwyr i sbarduno gwelliant yn eu lleoliad.

Bydd hefyd yn ein helpu i fod â'r hyblygrwydd i ddefnyddio'r fframwaith drafft fel y gall arolygwyr adrodd mewn modd ffocysedig ar y prif gryfderau a'r meysydd i'w datblygu ar gyfer y darparwr unigol, gan ystyried cyd-destun unigryw'r darparwr.

Bydd yr ymagwedd hon hefyd yn helpu i feithrin gallu ac yn ein galluogi i gynyddu ein hymgysylltiad ag ysgolion ac UCDau.

**Ymweliad interim**

Un ffordd o gynyddu ein hymgysylltiad yw cynnal ymweliad interim. Er ein bod yn ymgysylltu â rhanddeiliaid o hyd ynghylch manylion yr ymweliad interim, mae'n debygol o fod yn ymweliad byr – yn debygol o bara diwrnod neu ddau a chael ei gynnal gan dîm arolygu bach. Mae hyn yn debygol o gynnwys un i dri arolygydd neu dîm o bedwar, o bosibl, ar gyfer yr ysgolion uwchradd mwyaf.

Mae'n debygol y bydd yr ymweliad interim yn canolbwyntio ar yr argymhellion pwysicaf o adroddiad arolygu blaenorol y darparwr neu gynllun datblygu cyfredol. Daw'r ymweliad interim i ben trwy inni roi adborth i'r pennaeth a chyhoeddi adroddiad byr ar ein gwefan. Bydd yr adroddiad hwn ar ffurf llythyr byr, yn fwy na thebyg.

Caiff arweiniad manwl ei gyhoeddi ar ein gwefan yn nhymor yr haf 2024.

## Ysgolion annibynnol

Ar sail ymgynghori â'n rhanddeiliaid, rydym yn bwriadu cyfuno ein gwaith arolygu a monitro blynyddol i adeiladu patrwm mwy cyson o arolygu ar draws pob math o ysgolion annibynnol – y rhai sydd â darpariaeth ddysgu ychwanegol a'r rhai heb ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

Bydd ymagwedd fwy cymesur yn ein galluogi i dreulio mwy o'n hamser mewn unrhyw ysgolion nad ydynt yn bodloni'r Safonau Ysgolion Annibynnol. Mae trefniadau'n cael eu peilota cyn eu cyflwyno ym mis Medi 2024.

Bydd ein harlwy arfaethedig yn cynnwys y canlynol:

- Arolygu darpariaeth anghofrestredig
- Arolygiad cychwynnol o ysgol annibynnol newydd
- Ymweliad dilynol ar ôl cofrestru
- Arolygiad craidd (Adran 163)
- Arolygiad monitro
- Ymateb i gynllun gweithredu ôl-arolygiad
- Monitro ysgol annibynnol ar ôl arolygiad (gweithgarwch dilynol)
- Ymweliad â ffocws
- Cais am newid sylweddol

## Lleoliadau meithrin nas cynhelir

Er mis Ionawr 2019, mae Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru wedi arolygu gofal ac addysg mewn lleoliadau rheoledig nad ydynt yn ysgolion, sy'n gymwys i gael cyllid ar gyfer addysg ran-amser, ar y cyd. Mae Estyn ac AGC wrthi'n adolygu'r prosesau arolygu a'r fframwaith ar gyfer y gwaith hwn ar hyn o bryd, a byddant yn cydweithio â'i gilydd i ystyried canlyniad yr adolygiad i esblygu a gwella'r broses arolygu ar y cyd.

## Gwasanaethau addysg llywodraeth leol a'r sector gwaith ieuenctid

Ar sail ein hymgynghoriad â rhanddeiliaid, bydd ein fframwaith arolygu yn dilyn (MA1) Gwasanaethau addysgu a'u heffaith, a (MA2) Arwain a gwella. Rydym yn peilota cyfnod rhybudd llai a ffordd newydd o adrodd ar MA1 a MA2, yn ogystal â thegwch yn y system addysg, y Gymraeg a diogelu.

Rydym hefyd yn datblygu ein trefniadau arolygu yn y sector gwasanaethau ieuenctid ac yn cysylltu'r rhain â'n harolygiad GALIL, gyda'r bwriad o gynnig golwg fwy cyfannol.

## Y sectorau ôl-16

Daw Medr, sef y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, i rym ym mis Awst 2024 ac, o'r flwyddyn ariannol ganlynol, bydd yn gyfrifol am gyllid Estyn ac yn rhoi cyfeiriad i ni ar gyfer ein gwaith ôl-16 mewn AB, prentisiaethau, dysgu oedolion yn y gymuned a dosbarthiadau chwech.

### Addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned a cholegau arbenigol annibynnol

Ar ôl cyfnod o ymgynghori ac ymgysylltu â'n rhanddeiliaid, mae cynlluniau ar waith i beilota ein trefniadau drafft.

Byddwn yn parhau i gynnwys enwebai ac arolygwyr cymheiriaid fel rhan o'n tîm arolygu craidd.

Yn ystod yr arolygiad, rydym yn siarad â staff a dysgwyr ac yn ymweld â chymaint â phosibl o sesiynau addysgu. Ar ôl yr arolygiad craidd, byddwn yn cyhoeddi adroddiad a fydd yn dangos y cryfderau a'r meysydd i'w gwella. Ni fydd yr adroddiadau'n cynnwys gradd grynodol.

Rydym yn parhau â'n cyswllt rheolaidd neu ymweliadau monitro â darparwyr. Bydd y rhain yn canolbwyntio ar nifer fach o bynciau allweddol a fydd yn bwydo'n hadroddiad blynyddol neu waith thematig. Byddant yn caniatáu i ni fynd ar drywydd argymhellion o arolygiadau craidd ac yn rhoi cyfle rheolaidd i ddarparwyr ymgysylltu â ni. Bwriad ymweliadau cyswllt yw cefnogi gwelliant parhaus.

Yn ogystal â mynd ar drywydd argymhellion o arolygiadau craidd yn rheolaidd yn ein hymweliadau cyswllt neu fonitro, byddwn yn parhau i fod â phroses gweithgarwch dilynol ffurfiol ar gyfer darparwyr y mae angen mwy o gymorth arnynt.

Bydd canlyniadau ein harolygiadau peilot yn llywio ein cynlluniau cyn mis Medi 2024.

### Cymraeg i Oedolion

Rydym yn cynnig newidiadau sylweddol ac mae canfyddiadau ein hymarfer ymgynghori diweddar yn dangos cefnogaeth sylweddol. Mae'r newidiadau'n cynnwys:

- cael gwared ar raddau crynodol yn ein hadroddiadau
- cael gwared ar y gofynion ar gyfer arolygiad craidd i bob darparwr, gan gadw model arolygiad craidd ar gyfer sampl o ddarparwyr yn unig yn lle hynny
- cyflwyno arolygiadau â thema bob blwyddyn, gan ymweld â sampl o ddarparwyr ar ffocws penodol a darparu adroddiad cenedlaethol
- cyhoeddi dau adroddiad unigol i ddarparwyr yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd o arolygiadau â thema ym mlynyddoedd 3 a 6 y cylch
- un arolygiad o'r Ganolfan Genedlaethol, a fydd yn canolbwyntio ar gynnydd yn erbyn unrhyw argymhelliad sy'n weddill o'r arolygiadau â thema

## Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA)

Byddwn yn parhau i gyflwyno arolygiadau yn dilyn yr arolygiadau peilot yn 2022-2023 a byddwn yn parhau i addasu'r trefniadau ar ôl cael adborth. Byddwn yn cyflwyno cylch arolygu diwygiedig yn 2024-2025.

## Dysgu yn y sector cyfiawnder

Bydd trefniadau ar gyfer arolygiadau o ddysgu yn y sector cyfiawnder yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yn ystod 2024-2025, gan gydweithio ag Arolygiaeth Carchardai EF ac Arolygiaeth Prawf EF.



## Atodiad 2: Gweithgarwch arolygu cynlluniedig 2024-2025

| Gweithgarwch arolygu cynlluniedig gan Arolygwyr Ei Fawrhydi (AEF) ac arolygwyr annibynnol 2024-2025 (blwyddyn ariannol) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Uned arolygu | Nifer y darparwyr (2023) | Nifer cynlluniedig yr arolygiadau sy'n arwain at adroddiadau[1] (Blynyddol) | | |
| | | Cylch arolygu cyfredol Haf 2024 | Trefniadau arolygu newydd | |
| | | | Hydref 2024 | Gwanwyn 2025 |
| Lleoliadau meithrin nas cynhelir | 540 | 30[2] | 30[2] | 30[2] |
| Ysgolion cynradd | 1216 | 84 | 71 | 69 |
| Ysgolion uwchradd | 176 | 5 | 12 | 12 |
| Ysgolion pob oed | 29 | 1 | 3 | 2 |
| Ysgolion arbennig a gynhelir | 39 | 4 | 2 | 2 |
| Unedau cyfeirio disgyblion | 22 | 1 | 2 | 3 |
| Ysgolion annibynnol ac ysgolion arbennig annibynnol | 84 | 5 | 7 | 5 |
| Colegau arbenigol annibynnol | 7 | 0 | 0 | 1 |
| Gwasanaethau addysg llywodraeth leol[3] | 22 | 2 | 1 | 2 |
| Sefydliadau addysg bellach | 12 | 1 | 0 | 2 |
| Partneriaethau addysg gychwynnol athrawon (AGA) | 7 | 1 | 1 | 1 |
| Darparwyr prentisiaethau dysgu yn y gwaith (DYYG) | 10 | 1 | 1 | 1 |
| Partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned (DYYG) (gan gynnwys Addysg Oedolion Cymru) | 14 | 2 | 1 | 1 |
| Cymraeg i Oedolion (CiO) – 11 o ddarparwyr Dysgu Cymraeg ac un Ganolfan Genedlaethol | 12 | 1 | 2 | 0 |
| Trochi Cymraeg | | 1 | 1 | 1 |
| **Cyfanswm**[4] | | 139 | 134 | 132 |

(1) Yn seiliedig ar wybodaeth ar 20/03/2024.
(2) Caiff yr arolygiadau hyn eu cyflawni ar y cyd ag AGC.
(3) Bydd y pump arolygiad yn cynnwys gwaith ieuenctid sy'n cael ei ddarparu gan yr awdurdodau lleol.
(4) Yn ogystal, un arolygiad o gonsortia, pedwar arolygiad o ddysgu yn y sector cyfiawnder ac un o sefydliad yn y sector gwirfoddol sy'n darparu gwaith ieuenctid
(5) Mae tymor y gwanwyn 2025 yn parhau hyd 14 Ebrill

**Rydym yn croesawu adborth a sylwadau am y cynllun blynyddol hwn, y gellir eu hanfon atom drwy'r e-bost i adborth@estyn.llyw.cymru**

**Caiff y cynllun blynyddol hwn ei gyflwyno at sylw Prif Weinidog Senedd Cymru a'i gymeradwyo ganddo.**